## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("y Mesur") yn cyflwyno system o gynllunio cymunedol yng Nghymru. Mae adran 38(1) o'r Mesur yn darparu rhestr o gyrff cyhoeddus y cyfeirir atynt fel 'partneriaid cynllunio cymunedol' o dan Ran 2 o'r Mesur. Mae'n ofynnol i'r cyrff hyn gymryd rhan mewn gwaith cynllunio cymunedol. Mae'r rhestr hon yn cynnwys awdurdodau heddlu.

Yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ("Deddf 2011"), cafodd awdurdodau heddlu eu diddymu a'u disodli gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu. I adlewyrchu'r newid a wnaed gan Ddeddf 2011, mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn tynnu awdurdodau heddlu o'r rhestr o bartneriaid cynllunio cymunedol yn y Mesur ac yn gosod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn eu lle.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Llywodraeth Leol a Chymunedau, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.